

Andrew Slade

Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a  
Chyfoeth Naturiol  
Llywodraeth Cymru

---

19 Mawrth 2019

Annwyl Andrew,

**Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal ymchwiliad, sef Rheoli Gwastraff, a thrafod materion sy'n ymwneud â'r pwnc hwn, gan adeiladu ar dri adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2018–19.

Yn hytrach nag adrodd ar ein harsylwadau, cytunwyd y byddai'n amserol ac yn adeiladol cyfrannu'r rhain i ymgynghoriad presennol Llywodraeth Cymru, sef *Mwy nag Ailgylchu Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti*. Ceir ein canfyddiadau yn Atodiad A. Cyfeiriodd ein hymchwiliad hefyd at faterion sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau cynharach Llywodraeth y DU, ond sy'n berthnasol i Gymru, ar reoliadau pecynnu ac ar gynlluniau dychwelyd ernes.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru o'r farn mai ymgynghoriad cynnar oedd hwn, i geisio ymgysylltu ag ystod mor eang â phosibl o bobl yn gynnar yn y cylch polisi, a bod yr ymgynghoriad yn edrych yn ehangach na pholisi gwastraff. Serch hynny, deallaf y bwriedir i'r strategaeth ddisodli Tuag at Ddyfodol Diwastraff fel y ddogfen strategol gyffredinol, ond y gellir datblygu dogfennau eraill i'w hategu. Pennwyd ymateb Llywodraeth Cymru i nifer o'r argymhellion yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn y broses adolygu strategaeth hon.

Hoffwn hefyd dynnu'ch sylw at arolwg a gynhaliwyd gennym gyda'r cyhoedd mewn perthynas â pherfformiad a chyfranogiad awdurdodau lleol unigol mewn cynlluniau ailgylchu. Ceisiodd yr arolwg agored gasglu barn y cyhoedd am gyflwr presennol gwasanaethau gwastraff ar draws Cymru ac archwilio gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol. Ceir crynodeb o'r canlyniadau ar:



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ [SeneddArchwilio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru)

☎ 0300 200 6565

**National Assembly for Wales**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ [SeneddPAC@assembly.wales](mailto:SeneddPAC@assembly.wales)

☎ 0300 200 6565

<http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s99047/Waste%20Management%20-%20Survey%20Results%20February%202020.pdf>

Er bod ystod o fentrau posibl wedi'u hamlinellu yn yr ymgynghoriad strategaeth, ar y cam hwn o'r broses, mae'n anodd cael teimlad o'r amserlen bosibl i'w darparu, yr adnoddau a allai fod yn angenrheidiol er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgeisiau, a'r flaenoriaeth gymharol a gaiff ei rhoi ar atal gwastraff ar frig yr hierarchaeth gwastraff. Bydd llywodraeth leol yn bartner allweddol i helpu Llywodraeth Cymru i wireddu ei huchelgeisiau, ond rydym yn pryderu am y capasiti ar draws y sector o ystyried y pwysau ariannol parhaus.

Clywodd y Pwyllgor hefyd, yn ystod ei ymchwiliad ar gyfer cynlluniau ar gyfer ymgyrch newid ymddygiad newydd. Yn y pen draw, bydd llawer o'r camau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad strategaeth yn dibynnu ar newid ymddygiad ond rydym yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru fyfyrto a fyddai modd rhoi mwy o sylw i'r her hon wrth iddi gwblhau ei strategaeth. Yn olaf, rydym yn cydnabod bod hanes Cymru ar ailgylchu ei hun wedi denu diddordeb gan wledydd eraill ar draws y byd ond rydym yn hyderu y bydd Llywodraeth Cymru ei hun yn parhau i chwilio am enghreifftiau o arfer da a dysgu o brofiad mewn mannau eraill wrth iddi fwrw ymlaen â mentrau newydd.

Gobeithio y bydd arsylwadau manylach y Pwyllgor yn ddefnyddiol wrth i chi ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Hoffai'r Pwyllgor gael gwybod pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dogfennau eraill ar y pwnc hwn cyn iddi gwblhau ei strategaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan gynnwys unrhyw grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yna, gall y Pwyllgor geisio trafod y mater hwn eto cyn diwedd y Pumed Cynulliad i lywio ei adroddiadau etifeddiaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AC,**  
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English



Atodiad A

## Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

### Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Mwy nag Ailgylchu: Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti

1. Yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y pwnc uchod, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) wedi cwblhau ymchwiliad, sef Rheoli Gwastraff, ac wedi trafod nifer o faterion sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad. O ganlyniad, mae gennym nifer o arsylwadau a nodir yn y memorandwm hwn.
2. Nid yw'r Pwyllgor wedi trafod yr holl agweddau ar yr ymgynghoriad a'r cwestiynau manwl y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gofyn gan fod ein gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar ganfyddiadau allweddol y gyfres o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2018–19, a oedd yn cynnwys y canlynol:
  - [Caffael capasiti trin gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd](#)
  - [Ailgylchu trefol](#)
  - [Atal gwastraff](#)

## Ailgylchu

Yn ystod ein hymchwiliad, gwnaethom nodi bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod ei Glasbrint Casgliadau'n creu arbedion cost a deunyddiau ailgylchadwy o ansawdd gwell ochr yn ochr â darparu mwy o gysondeb i'r dulliau casglu ar draws Cymru.

Rydym yn nodi, o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, y darparwyd cymorth ariannol a thechnegol ychwanegol i gynghorau ddatblygu gwasanaethau ailgylchu drwy Raglen Newid Cydweithredol a weithredir gan WRAP Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, er bod pob cyngor wedi cael rhywfaint o gymorth drwy'r Rhaglen, mae'r nifer sy'n manteisio ar y cymorth yn amrywio.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i ni, cyfeiriodd WRAP at waith a gyhoeddodd yn 2016 ar [gostau casgliadau ailgylchu](#) a oedd yn awgrymu mai didoli casgliadau ar ymyl y ffordd yw'r dull mwyaf cost-ffeithiol o gyflawni cyfraddau ailgylchu uchel, ynghyd â chasglu gwastraff bwyd yn wythnosol a chyfyngiadau ar faint o wastraff gweddilliol a gesglir.



Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd 15 cyngor yn defnyddio ei model Glasbrint erbyn 2021. Fodd bynnag, o ran poblogaeth mae'n werth nodi nad yw'r ddwy ardal sy'n rhai trefol i raddau helaeth, sef Caerdydd ac Abertawe, wedi mabwysiadu'r Glasbrint eto.

Ym mhapur tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, tynnir sylw at y ffaith bod heriau ymarferol o ran cyflwyno gwasanaethau ailgylchu newydd, yn anad dim o ran rhoi gwybod i breswylwyr am newidiadau, sy'n golygu bod hyn yn cymryd amser ac, yn y pen draw, efallai na fydd modd darparu'r un gwasanaeth i bawb mewn ardal awdurdod lleol.

Roedd yn ddiddorol clywed y farn na fyddai cysondeb mewn trefniadau ailgylchu, o reidrydd, yn mynd i wella cyfraddau ailgylchu. Esboniodd CLILC fod gwahaniaethau rhwng lleoedd a chyfansoddiad cymunedau a bod gwasanaethau wedi'u haddasu i ddiwallu'r anghenion cymunedol penodol hyn. Er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig, mae cyfraddau compostio'n tueddu i fod yn uwch, felly nid yw'n effeithlon anfon lori gwastraff gwyrdd i lawr lonydd hir lle mai dim ond un neu ddau eiddo sy'n casglu gwastraff gwyrdd. Mae awdurdodau lleol yn datblygu systemau yn ôl eu hamgylchiadau lleol.

Mae perygl hefyd y gellir gorbwysleisio anghysondeb gan fod pob awdurdod lleol ar draws Cymru yn casglu gwastraff bwyd ar wahân, yn casglu deunyddiau ailgylchadwy sych fel papur, gwydr a metelau, ac mae pob un yn casglu swm gweddilliol. Er ein bod yn croesawu adolygiad Llywodraeth Cymru o'i Glasbrint Casgliadau, mae'n ymddangos bod y dulliau casglu sylfaenol yn gyson ar draws Cymru gyda dim ond rhai amrywiadau mân yn lleol.

Rhai o'r rhesymau a nodwyd i ni pam nad yw Abertawe a Chaerdydd wedi mabwysiadu'r glasbrint oedd yr amser y mae'n ei gymryd i gerbydau ddiidoli gwastraff ar ymyl y palmant a'r tagfeydd traffig posibl y gallai hyn eu hachosi. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod risgiau iechyd a diogelwch i bobl sy'n codi cratiau o wydr a allai fod yn drwm mewn ardaloedd lle y mae llawer o draffig.

Clywsom hefyd mai'r adborth a gaiff cyngorau yw bod yn well gan breswylwyr system seml lle y mae popeth yn mynd mewn un sach, yn hytrach na gorfod didoli deunyddiau. Efallai nad dyna'r system orau ar gyfer cael y ffrwd lanaf o ddeunyddiau ailgylchadwy, ond yn aml, os gofynnir i breswylwyr, byddai'n well ganddynt system symlach.



Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu cyfleuster cynhyrchion hylendid/cewynnau yng Nghymru, yn ogystal â gwastraff pren, y mae'r ddau ohonynt yn peri problemau penodol o ran ailgylchu.

Mae problem ddiweddarach wedi codi o'r twf mewn plastig bioddiraddiadwy gan nad yw'r systemau ar waith yng Nghymru i ymdrin â'r math hwn o blastig. Os ydynt yn mynd yn y ffrydiau gwastraff plastig neu fwyd mae'n achosi halogiad, felly efallai y bydd y cyhoedd yn ceisio ailgylchu, ond mae'r broses ei hun yn ddryslyd.

Mae angen cyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus â'r aelodau o'r cyhoedd am y deunyddiau hyn sy'n dod i'r amlwg fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud â hwy. Clywsom am y posibilrwydd ar gyfer apiau a all ddarllen cod bar ar eitem benodol a bydd yn dweud wrthyf yn union beth yw'r eitem a sut y gall gwasanaethau lleol ei hailgylchu. Fodd bynnag, gall hyn fod yn feichus i'r cyhoedd ei ddefnyddio'n barhaus ac mae angen adnodd sylweddol i bweru'r ap. Mae gwaith Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol ac eraill i helpu dinasyddion i ailgylchu i'w annog.

Gwnaethom gynnal arolwg o aelodau o'r cyhoedd ar eu profiadau o ailgylchu ac, er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol ynghylch casgliadau ailgylchu lleol, canolbwyntiodd nifer o bobl ar y safbwynt nad yw cynwysyddion casglu'n ateb y gofyn. Codwyd rhai materion ynghylch faint o sbwriel sy'n cael ei adael ar y stryd ar ôl casgliadau, yn enwedig pan fydd y tywydd yn wael ac mae'r cynwysyddion yn agor neu'n cael eu chwythu i ffwrdd yn y gwynt, gan adael gwastraff ar hyd a lled y ffordd.

Nododd nifer o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg eu bod o'r farn bod y casgliadau'n gyfyngol, yn ddryslyd neu'n anhyblyg. Hefyd, clywsom eu bod wedi colli casgliadau oherwydd yr anhyblygrwydd hwn a'i fod yn achosi rhwystr i'w nod i ailgylchu

Gwnaethom ofyn hefyd *Beth fyddai'n eich helpu chi i ailgylchu mwy?* Y prif awgrymiadau ar gyfer gwella oedd y dylai cynghorau gynnig casglu ystod ehangach o ddeunyddiau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei bwriad i osod rhagor o dargedau ailgylchu statudol y tu hwnt i 2025 ond nid yw'r ymgynghoriad strategaeth yn dweud dim ynghylch y ffordd orau o fesur perfformiad ailgylchu. Mae'n bosibl bod dewisiadau amgen i'r dull gweithredu presennol wedi'i seilio ar bwysau sy'n adlewyrchu'n well effaith carbon ailgylchu deunyddiau gwahanol a dywedwyd wrthym y byddai dangosyddion carbon yn allweddol yn y dyfodol. Rydym yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hopsiynau yn hyn o beth wrth ddatblygu targedau newydd a



myfyrio ymhellach a yw'n briodol parhau i gynnwys rhai deunyddiau, fel lludw gwaelod llosgydd, yn ei mesuriadau.

## Cefnogi atal ac aildefnyddio

Gwnaethom nodi canfyddiadau adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynghorau i ddatblygu ymgyrch newid ymddygiad newydd.

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod nifer o awdurdodau lleol yn dod yn fwy soffistigedig o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae rhai wedi datblygu apiau ac, ar ôl i aelwydydd gofrestru am un, caiff gwybodaeth ei hanfon atynt yn dweud, 'Peidiwch â rhoi'ch sachau allan i'w casglu heddiw gan na fyddwn yn eu casglu oherwydd yr eira', neu, 'Cofiwch mai yfory yw'ch diwrnod ailgylchu'. Fodd bynnag, mae pryder cyffredinol bod angen deialog barhaus â chymunedau ynghylch, yn gyntaf, ymarferoldeb defnyddio'r gwasanaeth—sut i'w ddefnyddio—ac, yn ail, yr ysgogwyr a'r cymhelliant ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth.

Mae pobl yn defnyddio'r gwasanaeth ailgylchu am lawer o resymau gwahanol. Nid yw'n orfodol—nid oes rhaid i neb ei wneud. Yn nodweddiadol, roedd y rhai cynnar i'w fabwysiadu'n bobl a oedd yn ymwybodol o'r amgylchedd ac am gymryd rhan yn hynny o beth. Mae gan bobl eraill gymhellion gwahanol, felly mae angen adolygu newid ymddygiad yn gyson—sut y gallwn ymgysylltu â phobl wahanol mewn ffordd wahanol i'w hannog i barhau i gymryd rhan yn hyn os ydym am barhau i gynyddu cyfraddau ailgylchu, yn hytrach na gwastadu neu gymryd cam yn ôl.

Mae gwastraff bwyd yn parhau i fod yn faes anodd wrth annog cyfranogiad gydag awdurdodau lleol, a'r cymhlethdod bod rhai'n codi tâl am fagiau gwastraff bwyd ac nad yw eraill yn eu darparu o gwbl. Roeddem yn synnu o glywed bod yn rhaid i'r bagiau startsh corn sy'n cael eu defnyddio fel arfer gael eu tynnu o'r gwastraff bwyd cyn ei dreulio'n anaerobig oherwydd nad ydynt yn treulio yn y gwaith treulio anaerobig. Yna, mae'n rhaid mynd â hwy i waith compostio mewn cynhwysydd lle y maent yn compostio.

Rydym yn deall yr anawsterau sy'n codi o'r ffaith bod darparu bagiau gwastraff bwyd yn annog pobl i ailgylchu gwastraff bwyd a'r tensiwn rhwng annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth drwy ddarparu'r bag hwn neu'r posibilrwydd bod pobl yn ymddieithrio rhag y gwasanaeth drwy beidio â darparu bag. Yn ôl ymchwil WRAP, pan fo pobl yn defnyddio'r gwasanaeth, yn canfod nad ydynt yn ei hoffi ac yn rhoi'r gorau i'w ddefnyddio, mae'n anodd eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw eto.



Rydym yn croesawu'r cynigion i ddatblygu rhai targedau ychwanegol sy'n ymwneud ag atal gwastraff, gan gynnwys gwastraff bwyd y gellir ei osgoi. Fodd bynnag, roeddem yn llai eglur ynghylch sut y byddai'r camau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad strategaeth yn ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch adolygu'r targedau atal gwastraff presennol a'r dull gweithredu a gymerir i'w monitro (o ran y sectorau masnachol/diwydiannol ac adeiladu/dymchwel yn benodol).

## **Ysgogi arloesedd a defnyddio deunyddiau**

Rydym yn rhoi pwys mawr ar Gronfa'r Economi Gylchol ac yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o helpu busnesau i ddod o hyd i ddefnyddiau a marchnadoedd ar gyfer deunyddiau yr ystyrir eu bod yn wastraff ar hyn o bryd a'r buddsoddiad a ddarperir i alluogi hyn drwy'r gronfa.

Roedd llawer o'r dystiolaeth lafar a glywsom yn canolbwyntio ar gytuno â Llywodraeth Cymru ar yr angen i ddatblygu economi gylchol. Mae angen edrych ar fwy o gapasiti ailbroesu yng Nghymru, ac rydym yn croesawu'r trafodaethau sydd eisoes wedi dechrau er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Clywsom, yn ddelfrydol, y dylid casglu deunyddiau gwastraff yn lleol, eu hailbroesu yn yr ardal a sicrhau bod y deunydd wedi'i ailbroesu ar gael i gwmnïau lleol ei ddefnyddio sydd, yn ei dro, yn creu swyddi ac yn datblygu'r economi gylchol.

O ran busnesau, clywsom fod cronfa'r economi gylchol wedi'i chynllunio i gefnogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru sy'n ceisio cynyddu eu defnydd o gynnwys wedi'i ailgylchu, neu ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn y cynhyrchion, y deunydd pacio neu'r cydrannau y maent yn eu gweithgynhyrchu. Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan WRAP Cymru i weinyddu'r gronfa, yn enwedig wrth weithio gyda busnesau sy'n defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu sy'n dod o wastraff a phlastigion wedi'u hailgylchu defnyddwyr yng Nghymru. Os rhywbeth, rydym yn amau a fydd lefel y cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i gefnogi'r maes gwaith hwn yn ddigonol os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch ysgogi cynnydd tuag at economi gylchol.

Clywsom gan Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) Cymru fod y galw am gyllid, hyd yn hyn, wedi bod yn uchel yn seiliedig ar ei phrofiad o gynnal cynlluniau grant tebyg.

## **Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth**



Clywsom mai un o'r ffactorau a all ostwng cyfraddau ailgylchu yw dryswch ymhlith y cyhoedd ynghylch yr hyn y gellir ei ailgylchu a'r hyn na ellir ei ailgylchu. Er enghraifft, nid yw'r cyhoedd yn gwybod pa fathau o blastigion y gwneir eitemau ohonynt, gan gynnwys pecynnau creision a chwpanau coffi. Rydym yn awyddus i Gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) gael ei ddatblygu, ac rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Hoffem i'r cynhyrchwyr sy'n dod â'r deunyddiau hyn i'r farchnad gael mwy o ysgogiad o ran costau i gynhyrchu deunydd sy'n gwbl ailgylchadwy oherwydd y byddant yn talu ffi fodiwlaid is yn deillio o hynny a gellir ailgylchu'r deunyddiau hyn yn lleol.

Mae gan EPR botensial sylweddol gan i ni glywed bod y cynhyrchydd yn ysgwyddo 10 y cant o'r costau ar hyn o bryd ond byddai newid hyn i 100 y cant yn newid dull gweithredu cynhyrchwyr.

Fodd bynnag, pan fyddai EPR yn cael ei sefydlu, byddai angen i seilwaith ailgylchu digonol fod ar waith yng Nghymru er mwyn sicrhau y gellir ailgylchu'r deunyddiau hyn yn effeithlon ac yn effeithiol. Byddai angen cyflwyno data i DEFRA i nodi faint y byddai'n ei gostio i Gymru ailgylchu'r deunyddiau hyn, gan ystyried materion ehangach fel yr economi gylchol a'r economi sylfaenol, er mwyn cynyddu effaith polisi ailgylchu i'r eithaf ac nid yw EPR yn ymwneud â gweithgynhyrchwyr yn dod o hyd i'r ffordd rataf o ailgylchu, oherwydd mai dyna'r cyfan y maent yn barod i dalu amdano. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn wrth weithio i ddatblygu EPR.

Cefnogwyd y canfyddiadau hyn ymhellach yng nghanlyniadau arolwg cyhoeddus pan ddywedodd nifer o bobl wrthym y dylai manwerthwyr ddefnyddio deunyddiau mwy ecogyfeillgar ac ailgylchadwy yn eu deunydd pacio ac y dylai fod yn llai dryslyd o ran yr hyn y gall y cyngor ei ailgylchu.

Rydym hefyd yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid eraill i geisio datblygu system olrhain gwastraff electronig a ddylai helpu i sicrhau na fydd gwastraff yn mynd i'r lle anghywir yn y pen draw. Bydd y system hefyd yn darparu data ar wastraff busnes nad yw'n cael ei gasglu ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen ymgynghori yn awgrymu y bydd y system yn darparu gwybodaeth flynyddol am wastraff diwydiannol a masnachol, ond roeddem wedi deall ei bod yn cael ei datblygu i olrhain gwastraff sy'n deillio o bob sector.

Clywsom mai cymharol ychydig o'r gwastraff a oedd yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru oedd yn cael ei allforio, ond rydym yn cefnogi'r egwyddor y dylem gymryd cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff yng Nghymru, gan sicrhau nad ydym yn allforio gwastraff i fod yn broblem yn rhywle arall.





Rydym yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol wedi archwilio'r potensial i ddefnyddio adran 46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gyfarwyddo deiliaid tai i beidio â rhoi deunydd ailgylchadwy yn eu gwastraff gweddilliol. Mae Cyngor Dinas Abertawe yn enghraifft o hyn ac mae Cyngor Rhondda Cynon Taf, ymhlith eraill, yn ei ystyried. Mae hwn yn rhannol yn ymateb i adborth y cyhoedd i awdurdodau sy'n dweud rhywbeth tebyg i 'Pam ydw i'n ailgylchu'r holl bethau hyn pan nad yw fy nghymydog yn mynd i'r drafferth? Beth wnewch chi amdano?'

Clywsom fod Cyngor Abertawe yn edrych a oes deunyddiau ailgylchadwy mewn casgliadau sachau du a bod awdurdodau eraill wedi gorfodi polisïau, os oes gennyh fin ar olwynion, mai dyna'ch capasiti ar gyfer gwastraff gweddilliol ac, os ydych yn rhoi sachau du o amgylch y bin ar olwynion, y byddwch yn cael ymweliad gan swyddog ailgylchu ac y cewch eich annog a'ch helpu i ddefnyddio'r gwasanaeth ailgylchu.

O edrych ar y dadansoddiad, mae modd ailgylchu llawer o'r hyn sy'n cael ei roi mewn biniau ar olwynion ac, yn achos Abertawe, mae pobl yn cael tri ymweliad cyn i hysbysiad cosb benodedig gael ei gyhoeddi.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru bellach yn ymgynghori ar fanylion y rheoliadau perthnasol, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a chredwn y bydd yn well os gellir gweithredu'r rheoliadau i gefnogi camau gorfodi cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'i thrafodaethau, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am ddefnyddio'r dull gweithredu a ddilynir gan Gyngor Abertawe fel enghraifft o arfer da ac annog awdurdodau lleol eraill i wneud yr un peth.

### **Galluogi cymunedau a busnesau**

Clywsom lawer am bwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau a busnesau i ddatblygu newid ymddygiadol ac rydym yn croesawu'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol gyda hyn.

Fodd bynnag, mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn golygu bod angen adnoddau, sy'n lleihau i awdurdodau lleol, gan greu heriau o ran blaenoriaethu'r gwasanaethau a ddarperir dros yr agwedd gyfathrebu. Mae hyn yn peri risg yn y tymor hir oherwydd trosiant aelwydydd a'r angen i adnewyddu dealltwriaeth pobl o'r system ailgylchu a sut i'w defnyddio.



Mae angen deialog barhaus â chymunedau ynghylch ymarferoldeb defnyddio gwasanaethau a'r ysgogwyr a'r cymhelliant dros ddefnyddio'r gwasanaeth. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gadw llygad barcod ar newid ymddygiad, gan gynnwys sut i ymgysylltu â phobl wahanol mewn ffordd wahanol er mwyn iddynt barhau i ailgylchu a chynyddu'r cyfraddau ailgylchu.

### **Buddsoddi mewn seilwaith**

Gwnaethom nodi'r ymrwymiad ariannol sylweddol a wnaed eisoes i fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer ailgylchu gan aelwydydd, ond hefyd i gefnogi dulliau trin bwyd a gwastraff gweddilliol.

Rydym yn pryderu nad yw'r seilwaith ailgylchu presennol, sef ailgylchu ar y stryd wrth deithio, wedi'i ddatblygu. Clywsom am broblemau o ran halogi gyda chyfleusterau ailgylchu wrth deithio. Mae angen dealltwriaeth ac ymgysylltiad gwell ar y cyhoedd ynghylch sut i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

Fodd bynnag, mae mentrau eraill a all leihau'r angen am seilwaith ailgylchu wrth deithio. Er enghraifft, byddai'r nod i Gymru ddod yn genedl ail-lenwi'n lleihau nifer y poteli plastig y mae pobl yn eu hailgylchu wrth deithio. Yn yr un modd, mae cynlluniau dychwelyd ernes yn cael eu datblygu ledled y DU a allai helpu i leihau achosion o ailgylchu a'r angen am gyfleusterau ailgylchu wrth deithio.

Bydd ymgyrch Llywodraeth Cymru i hyrwyddo seilwaith cymunedol, drwy siopau diwastraff, ailddosbarthu bwyd dros ben, ail-lenwi, siop logi gymunedol a mentrau tebyg eraill, er mwyn lleihau gwastraff yn helpu gyda hyn.

Credwn fod mwy o waith i'w wneud i annog busnesau i ailgylchu ac rydym yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ddatblygu hybiau ailgylchu rhanbarthol, technolegau ailbrosesu ac ailweithgynhyrchu i achub ar y cyfleoedd economaidd sy'n deillio o'r economi gylchol. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn cytuno â buddsoddi yn y seilwaith i drin deunyddiau mwy cymhleth fel pren a chynhyrchion hylendid amsugol.

